
Darganfod
Dadlau
Dewis
—
Discover
Debate
Decide

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## Ymchwiliad ar gyfranogi yn y celfyddydau

## Cwestiynau ar gyfer sefydliadau



## Cwestiynau

**Byddai o gymorth mawr i ni pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn.**

**1 Pa grwpiau o bobl sy'n cyfranogi yng ngweithgareddau celfyddydol eich sefydliad?**

Trwy ein harddangosfeydd a gweithdai celf, gweithgareddau celfyddydau cymunedol a darpariaeth celfyddydau perfformio mae grwpiau amrwyiol ac eang yn cyfranogi yn ein Gwasanaeth Celfyddydol– bobl lleol, ymwelwyr, artistiaid, crefftwyr, cwmniau drama amateur, cwmniau theatr broffesiynol ac amateur yn y gymraeg a'r saesneg, cwmniau operau, bale, clybiau celf lleol, mudiadau meithrin, ysgolion, colegau, grwpiau yn cael eu targedu drwy brosiectau penodol e.e. iechyd meddwl, Clwb Caru Celf a Clwb Caru Cerdd ar gyfer bobl ifanc, i enwi rhai.

**2 a) A ydych yn credu bod newidiadau mewn cyllidebau wedi effeithio ar gyfranogiad yn y celfyddydau, yn gadarnhaol neu'n negyddol?**

Mae'r Gwasanaeth Celfyddydol wedi bod yn rhan o Adolygiadiadau gydag arbedion i'w darganfod. Mae'r canlyniad wedi bod yn amrywiol gan ganolbwyntio ar geisio codi targedau incwm yn bennaf ac edrych os oes modd darparu un gwasanaeth ( Neuadd Dwyfor – theatr/sinema) mewn ffordd amgen ac mae'r trafodaethau hynny yn parhau. Felly mae'r dyfodol yn ansicr. Yn ogystal mae trafodaethau parthed y ddarpariaeth yn y Bala lle efallai bydd yn symud o Neuadd Buddug i'r ysgol newydd. Rydym yn parhau i fonitro effaith gorfod codi incwm e.e. drwy godi prisiau tocynnau yn y Neuaddau ac fe all hyn amharu ar y nifer all fforddio'r ddarpariaeth. Yn y theatrau mae llai o ysgolion yn mynychu gweithgareddau a digwyddiadau a gyda newid yn y grant i Gwmni Fran Wen mae ysgolion Gwynedd a Môn wedi colli allan. Hefyd mae lleihad i'r hyn sydd ar gael oherwydd toriad i grant Hijink a cholled i blant yr ardal wrth i Theatr Powys golli eu grant. Felly mae llai o gwmniau proffesiynol yn yr iaith Gymraeg ar gael yn cael effaith ar y ddarpariaeth. Mae toriadau yn sicr wedi effeithio ar y grantiau strategol rydym yn ei ddyranu i fudiadau celfyddydol ac mi fydd mwy o gystadleuaeth am y grantiau. Mae'r Uned Celfyddydau Cymunedol wedi derbyn cefnogaeth a rhagor o gyllid i wireddu prosiectau ac mae cynllun ar y gweill i greu darpariaeth newydd yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd sy'n ddibynnol ar dderbyn grantiau e.e. HLF. Bellach mae cynllun Asiantaeth Celfyddydau i Ysgolion Gwynedd a Môn yn derbyn llai o gyllid gan Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n wedi effiethio ar y cyfloedd i ysgolion. Felly er ei fod yn gyfnod heriol rydym hyd yma wedi gwarchod y gwasanaethau sy'n darparu cyfleoedd i gyfranogi yn y celfyddydau ond mae ansicrwydd ar gyfer y dyfodol a toriadau pellach o'n blaenau.

**b) A ydych yn credu bod hyn wedi effeithio mwy ar rai grwpiau o bobl nag eraill?**

Ar hyn o bryd nid oes newid sylweddol i mwyafrif o'n gwasanaethau ond mae'r Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio yn gweld effaith ar y ddarpariaeth fel a nodwyd yn a) yn enwedig ar yr elfen sy'n effeithio ar yr iaith Gymraeg ac ysgolion. Hefyd mae llai o gyfleoedd i ysgolion yn sgil derbyn llai o arian i'r cynllun Asiantaeth. Fe all newid fod yn y dyfodol yn sgil toriadau ac mae'n gyfnod ansicr iawn ac mi fydd hyn yn ddibynnol ar y datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer Neuadd Dwyfor, Amgueddfa ac Oriel Gwynedd a'r Uned Celfyddydau Cymunedol. Anelir i wella'r cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad yn hytrach na'u lleihau. Fel ac y nodwyd yn a) fe all pwysau i godi incwm effeithio ar rhai yn y gymuned i allu fforddio mynychu/defnyddio ein darpariaeth e.e. prynu tocynnau, llogi ystafelloedd.

**3 A oes bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cyfranogiad yn y celfyddydau, o ran demograffeg neu ddaearyddiaeth?**

Rydym yn ymwybodol bod Gwynedd yn sir eang yn ddaeryddol gyda cymunedau gwasgaredig a gwledig iawn. Rydym yn ymwybodol bod bylchau yn arbennig yn ne'r sir a rydym yn ymdrechu i dargedu trefnu gweithgareddau yno e.e. digwyddiadau fel Clwb Caru Celf, parhau i ddarparu oriel ym Mlaenau Ffestiniog. Hefyd rydym yn cefnogi gweithgareddau sefydliadau eraill drwy ein grantiau strategol ac un o'r meini prawf yw'r ardaloedd sy'n cael cyfle i gyfranogi. Mae darparu gwasanaeth theatr a sinema ym Mhwllheli hefyd yn bwysig gan nad oes cyfleoedd tebyg gerllaw heb deithio e.e. i Gaernarfon ac mae angen am fwy o weithgareddau i bobl ifanc ac yn yr iaith Gymraeg. Yn ogystal mae Neuadd Buddug yn y Bala yn adnodd pwysig i'r ardal ond ar hyn o bryd nid yw'r dyfodol yn sicr ac fe rhagwelir bydd y ddarpariaeth yn symud i'r ysgol newydd yn y dyfodol. Yn sgil yr hyn a nodwyd yn 2 rhaid cadw golwg ar y cyfleoedd i ysgolion.

**4 A oes digon o ffynonellau ariannu ar gael ar wahân i Gyngor Celfyddydau Cymru? A yw ffynonellau ariannu eraill yn hygyrch?**

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r brif ffynhonell ar gyfer y celfyddydau. Ond nid yw pob tro yn addas i'r hyn rydym yn geisio ei ddarparu. Rydym wedi denu grant gan Cymal ( amgueddfeydd) gan ein bod wedi cynnwys casgliadau amgueddfeydd fel ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith therapi celf yn ein prosiect Arteffact. Hefyd os ydym yn trefnu arddangosfeydd celf hanesyddol Cymal fyddai un o'r ffynhonellau nid Cyngor Celfyddydau. Mae cronfeydd eraill ar gael fel Esmee Fairbairn ond nid ydym wedi eu defnyddio hyd yma ond rhagwelir byddem yn gwneud hynny yn y blynyddoedd nesaf.

Mae ffynonellau ariannu hefyd ar gael trwy'r cynllun datblygu gwledig sy'n cefnogi crefftwyr a chynhyrchwyr lleol yn ardaloedd gwledig Cymru yn ogystal â phrosiectau Ewropeaidd megis Cyrraedd y Nod sy'n cynnig cyfleon i gyfranogi trwy'r celfyddydau ac yn targedu grwpiau penodol o bobl ifanc.

**5 Pa rôl y mae'r sector celfyddydau gwirfoddol yn ei chwarae mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru a sut y gellir cefnogi hyn?**

Rydym yn cydweithio gyda Mantell Gwynedd. Maent er enghraifft yn aelod o banel Fforwm Celfyddydau Gwynedd ac rydym yn eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad fydd gennym ar y gweill.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi yn llunio Polisi Gwirfoddolwyr ac rydym yn cydweithio efo Mantell Gwynedd ar sut i addasu hyn i'n gwasanaethau ni gan geisio adnabod cyfleoedd i'r gymuned gael gwirfoddoli. Megis cychwyn ydym yma felly mae'n rhy fuan i asesu hyn.

**6 A yw'r berthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n dosbarthu'r arian i'r celfyddydau yn effeithiol o ran cynyddu cyfranogiad?**

Yn dilyn y newidiadau diweddaraf i strwythurau'r Cyngor Celfyddydau, mae pryder yn cael ei ddatgan nad oes trosolwg rhanbarthol yn bodoli a alli adnabod bylchau neu gyfleon i gynyddu cyfranogiad. Mae peryg i fwlch ddatblygu yma a allai effeithio ar gyfranogiad. Mae trafodaethau'n parhau ymysg awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i geisio ymateb i'r bwlch posib hwn ac i hybu cydweithio'n benodol mewn meysydd i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau e.e. Arteffact, Criw Dwi'n Caru Celf, Helfa Gelf ayb. Yn aml mae cronfeydd eraill yn fwy " hwylus" ar gyfer prosiectau e.e. Cymal.

O ran y Celfyddydau Perfformio mae pryderon gyda'r arian sydd wedi mynd i dri phrif gwmni proffesiynol yng Nghymru ac ychydig o'i gwaith sydd yn teithio i theatrau e.e. Theatr Genedlaethol, National Theatr a hefyd Coreo Cymru rhwng y tri yn derbyn dros 3 miliwn.

**7 Bydd pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012. A ydych yn credu y bydd y dyletswyddau cydraddoldeb newydd hyn yn y sector cyhoeddus yn helpu i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru?**

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill. Fel rhan o'r gwaith paratoi, bu ymgysylltu ar lefel rhanbarthol a lleol gyda'r holl nodweddion gwarchodedig a ddiffinir dan y Ddeddf.
Daeth yn glir o'r broses yma bod grwpiau lleiafrif ethnig yn enwedig yn awyddus iawn i wybod mwy ac i ymgymryd mwy a'r celfyddydau yn lleol. Gwelwn botensial cryf i adeiladu ar hyn: Hysbysu grwpiau o ddigwyddiadau ac hefyd eu cefnogi i ymgymryd a'r celfyddydau

## Ffurfiau hygyrch

**Gellir cael copïau o'r holiadur hwn mewn fformatau hygyrch hefyd, gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled, gan:**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

## Diolch yn fawr am eich help chi

**Anfonwch yr holiadur hwn at y cyfeiriad canlynol os gwelwch yn dda:**
**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
**RHADBOST SWC 3358**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1GY**